# COFNODION  DRAFFT CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELER 2026

Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 18ed 2025 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cyng Ken Howell, diolchodd i bawb am y gefnogaeth tra yn y gadair.

**PRESENNOL:** Cyng.- Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Marc Rees, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith ac Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones
Hefyd yn bresennol :- Cyng Sir Cyng. Hazel Evans a'r Cyfieithydd

**1. 05/26 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards, Eleri Samson, Gethin Richards.

**2. 05/26 CADARNHAU COFNODION 2025:**
Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod misol Mehefin 30:06:2025 Cynigydd: Cyng.Marc Rees
Eilydd: Cyng. Adrian Thomas

**3. 05/26 ETHOL CADEIRYDD(swydd cyfnod 2 flynedd) am 2025/27:-**
Cyng. Ken Howell fel Cadeirydd i barhau ar ei dymor cyfnod o 2 flynedd - Cynigwyd gan Cyng John Crossley ac Eiliwyd gan Cyng Delyth Evans a cytunwyd yn unfrydol iddo gymryd y gadair.

**4. 05/26 ETHOL IS-GADEIRYDD (swydd cyfnod 2 flynedd) am 2025/27:**-
Cyng. Gethin Richards fel is Gadeirydd i barhau am y cyfnod 2 flynedd – Cynigwyd gan A ac eiliwyd ganntoni Schiavone ac Eiliwyd gan Cyng D Evans

**5. 05/26 LWFANS Y CADEIRYDD:**
Am y flwyddyn 2026 /27 fe gytunwyd fel y flwyddyn cynt i'r Cadeirydd roi anfoneb am unrhyw gostau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. 05/26 CYFLOG Y CLERC:** gadawodd y Clerc a'r Cynghorydd H Evans yr ystafell cyn y drafodaeth. Cytunwyd gadael y cyflog fel y mae am flwyddyn arall ac ail edrych yn y cyfarfod blynyddol 2027. Diolchwyd iddi am ei gwaith dros y flwyddyn.

**7. 05/26 DERBYN MANTOLEN 2025 – 2026:**
Derbyniwyd y fantolen yn barod i'w archwilio gan Mrs Ann James yr Archwilydd Mewnol.

**9. 05/26 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2026-27:**
Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2026/27.

**10. 5/26 APWYNTIO PERSONI YMGYMRYD A'R GWAITH O WNEUD TALU WRTH ENNILL Y CLERC**
Gan bod Antur Cymru wedi hysbysu nad ydynt am wneud y gwaith bellach mae Mrs Helen Jones, Abercych wedi bodloni Ymgymryd a gwneud y gwaith ar gost o £100 i osod ifyny gyda HMRC ac yna £15 y mis am y gwaith gweinyddol.

**11. 05/26 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**
Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Ken Howell
Llywodraethwyr Bryn Saron a Chaerfelin – Cyng. Antoni Schiavone
Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith
Parc Saron – Cyng Gethin Richards
Parc Pentrecwrt – Cyng. Jamie Ayres
Pwyllgor Llifogydd Llandysul – Cyng. Adrian Thomas
Llywodraethwyr Ysgol Bro Teifi – Cyng Adrian Thomas

**12. 05/26 MATERION CYFANSODDIADOL:**
**i.** Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwympo ar Ŵyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun yr wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Ŵyl y Banc yr un fydd y drefn.- *cytunwyd i hyn*
ii. APWYNTIO CYFREITHIWR I'R CYNGOR
Cynigiwyd Gwenyth Richards o Williams & Bourne :- Cynnig: cyng Marc Rees Eilio: Antoni Schiavone

_____________________________________Cadeirydd _________________________Dyddiad

COFNODION DRAFFT

**13. 5/26 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2026/27**

**2026:-** Mehefin29ain /*June 29th*, Gorffennaf 27ain /*July 27th*, Medi 28ain /*September 28th*, Hydref 26ain /*October 26th* Tachwedd 30ain /*November 30th,*

**2027:-** Ionawr 25ain /*January 25th* , Chwefror 22ain/*February* 22ain, Mawrth /*March 30th*, Ebrill 26ain / *April 26th* Mai 24ain /*May 24th*

Daeth y rhan yma o'r cyfarfod i ben am 7.55yh

CADEIRYDD____________________________________________ DYDDIAD____________________________

COFNODION DRAFFT